Cyf. LIV | Rhagfyr 1954 | Rhif 12

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

CYNNWYS

Nodiadau'r Golygydd
Rhes o Gyd-ddigwyddiadau Hynod a Diddorol
The Story of Wick
Wick II
Marwgofion
Bedydd
Priodasau
Newyddion yr Enwad
Y Cwpwrth Llyfrau

YR YMOFYNNYDD

Pris 6ch. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15fed o'r mis

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. G. Evans, B.A.; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; Islwyn Pritchard, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; T. O. Williams, M.A.; Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol LIV. RHAGFYR 1954 Rhif 12

Nodiadau'r Golygydd

Rhoi'r Cloc yn y Gwely.

Y DYDD o'r blaen digwyddais alw mewn tŷ arbennig yn Sir Aberteifi a dyma'r stori ryfedd a glywais. Ymddengys fod gŵr a gwraig y tŷ wedi penderfynu ei bod yn adeg papuro'r gegin unwaith eto, ac fe aethpwyd ati o ddifri. Yn awr, un o ddodrefn pwysicaf y gegin honno yw'r ' cloc wal ', diogel o faint, sydd wedi addurno'r pared ers pan symudodd y teulu i fyw i'r tŷ hwn tua deugain mlynedd yn ôl. Y mae'n gloc hardd a cherddodd ei bindil urddasol gyda'r teulu ar ei rawd yn ddi-fwlch yn ystod y deugain mlynedd hyn. Am ryw reswm, perchir cloc yn anad un dodrefnyn arall yng Nghymru, ac ni chaniatawyd i neb ond y penteulu i gyffwrdd â hwn na'i weindio ar hyd y blynyddoedd. Bu'n ddadl boeth lawer gwaith ar adeg papuro, y wraig yn dal y dylid symud y cloc er mwyn cael papuro o'r tu cefn iddo a'r gŵr yntau yn dal yn gyndyn na ddylid symud yr hen bererin ar unrhyw delerau, rhag ofn tarfu ar gerddediad cyfriniol Amser. Beth bynnag, y gŵr a orfu bob tro ac ni symudwyd yr hen gloc yr un tro, a bu raid i'r wraig druan bapuro o'i gwmpas ac hyd at ei ymylon gorau medrai. Cnd eleni . . . .

Ie, y wraig a orfu ! "A ddioddefws a orfu", chwedl teulu Aberpergwm ! Ac yn groes i'w raen aeth y penteulu ati i symud y cloc. Symudodd y bindil yn ofalus, ac wedi tynnu'r hen law oddi ar ei fachyn, aeth ag ef i'r lle saffaf y gwyddai amdano i'w gadw a rhoes ef i orwedd yn dyner ar y gwely yn y Pen Uchaf. Eithr nid dyna'r stori i gyd, a bu raid talu'n drwm am ROI'R CLOC YN Y GWELY !

Papurwyd y gegin yn drylwyr drwyddi y tro hwn a daeth yr amser i ddod a'r cloc yn ôl a'i hongian ar ei fachyn fel brenin ar ei orsedd i reoli cerdded yr aelwyd a mynd a dod ei denantiaid. Gwnaethpwyd hyn eto gyda'r un câr a gofal, ond gwae ni, gwrthodod y brawd gerdded na tharo byth er hynny ! Chwarae teg

iddo, *cerdded nid cysgu yw gwaith cloc*, ac efallai ei fod wedi gweld chwith am y tro hwn a ddaeth i'w ran. A chan feddwl i'r cyfeiriad hwnnw credais i mi weld dameg yn y digwyddiad, un o lawer a oedd yn ei chynnig ei hun i mi fel i chwithau, hwyrach.

Gwn am un dyn mewn capel arbennig a fu'n ddiwyd gyda gwaith yr eglwys am flynyddoedd lawer. Ef oedd yn rheoli ac ef oedd yn cadw amser popeth cyn belled ac yr oedd mynd a dod y trefniadau o dan sylw. Yna, yn ddigon caredig ei chymhellion, penderfynodd yr eglwys mai da o beth fyddai cael cynorthwywr ifanc iddo er ysgafnhau'r baich ac er sicrhau'r olyniaeth. Rhoddwyd gwaith arbennig i'r bachgen ifanc a thros dro yn unig, rhoddwyd yr hen gloc YN Y GWELY. 'Cherddodd e' byth wedyn, ond yn wahanol i gloc y gegin fe ddaliodd ati i daro yn gadarn . . . y tu allan i furiau'r capel !

Ie, peth rhyfedd yw rhoi CLOC YN Y GWELY !

DR. ALBERT SCHWEITZER.

Un o ddigwyddiadau pwysicaf y mis diwethaf oedd araith y Dr. Schweitzer ar achlysur derbyn ohono Wobr Heddwch Nobel am 1952 yn Oslo, gwlad Norwy, ar y bedwaredd o Dachwedd. Y mae'n ddiamau gennyf na welodd ein hamser ni ddyn mwy na hwn ac ni synnwn weld ei gydnabod ymhen hir a hwyr fel dyn mwyaf hanes Cred. Ac yntau yn ddim ond gŵr ifanc ar y pryd dangosodd ddisgleirdeb tuhwnt i'r cyffredin mewn amryw feysydd gan ennill gradd Doethor mewn Athroniaeth, Meddygyniaeth, Cerddoriaeth, Diwinyddiaeth a gwybodau eraill. Yr oedd llwyfannau'r byd yn agored iddo a gallasai fod wedi derbyn pob anrhydedd posibl, ond yn hytrach, dewisodd wasanaethu'r gwan mewn cilfach ddiarffordd yn nhywyllwch Affrica. Yn awr y mae yn tynnu at ei bedwar ugain oed a'r rhan fwyaf o'i oes wedi ei threulio ymysg y gwahanglwyfus a'r di-amddiffyn gan roi ymgeledd a gofal tyner iddynt yn eu poen a'u dioddefaint. Bydd yn defnyddio arian y Wobr Nobel at helaethu ei wasanaeth a bendith Duw a fo arno ar ei daith yn ôl.

Clodforir gwaith y Dr. gan wŷr amlwg o bob enwad ond yn anfynych iawn y ceir cyfeiriad at ei ddiwinyddiaeth y sydd mor agos ag y sydd bosibl at ddiwinyddiaeth yr Undodwr, ac o'r Ffydd honno y tarddodd y gwasanaeth. Os carech wybod rhagor amdano mynnwch ddarllen un o'r amryw lyfrau a gyhoeddwyd arno, ac ymhlith y goreuon, y mae eiddo un o'n gweinidogion, Magnus Ratter.

Ond yn awr at yr hyn a gyhoeddodd y Dr. Schweitzer yn ei araith yr oedd yn ofynnol iddo ei thraddodi cyn derbyn y Wobr Nobel am 1952. Dyma ddarn yn unig : "Y drwg ar y byd heddiw fod dynion wedi mynd yn uwchfodau heb fod yn feddiannol ar

reswm uwchddynol, sy'n gwbl angenrheidiol i gydfynd â meddu gallu uwchddynol. Fel y cynydda'r uwchfod hwn yn ei allu a'i awdurdod, fe â'n dlotach a mwy a mwy annynol o hyd . . .

Eithr erys yr hen wirionedd fod yr ysbryd o hyd yn abl, ac yn abl heddiw, i greu meddwl newydd, sef meddwl moesol. Gallai'r ysbryd gyflawni gwyrth newydd yn y dyddiau hyn, y wyrth fwyaf erioed.

Yn enw pawb sy'n dioddef dros achos heddwch, erfyniaf ar y cenhedloedd i gymryd y cam cyntaf ar y llwybr newydd hwn. Mewn ysbryd ymddiried ac yn yr awyrgylch a greai ysbryd o'r fath, gellid dechrau o ddifrif ar y dasg fawr o geisio datrys yn gyfiawn ac effeithiol broblemau'r byd a greodd dau ryfel yn y byd sydd ohoni heddiw.

"Os yw yn bosibl, hyd y mae ynoch, byddwch fyw yn heddychlon bawb gyda'ch gilydd—"

"Nid geiriau wedi eu anelu at unigolion mo'r uchod "meddai "ond geiriau â phwys eu neges i'r cenhedloedd hefyd. Rhodded dyn ei ewyllys a'i fryd ar ennill byd lle na bydd rhyfel mwyach."

Diwedd Blwyddyn.

Dyma ddiwedd blwyddyn arall yn hanes Yr Ymofynnydd a'r hen ŵr yn dathlu ei gant a saith ar derfyn y tymor. Wynebwn y flwyddyn newydd yn bur hyderus a hynny am i ni gael cefnogaeth gyson a chyfraniadau sylweddol i helpu'r achos yn ystod y flwyddyn. Nid wyf yn hoffi'r *begian* yma, y mae'n rhaid i mi ei wneud o hyd ac o hyd. Pe caem gant arall o ddarllenwyr ni byddai angen amdano, a thaer erfyniaf am gefnogaeth pob gweinidog a myfyriwr, pob pregethwr lleyg a pawb arall sy'n siarad o'n pulpudau am iddynt wneud apêl daer ar bob cyfle posibl yn ystod y mis nesaf er ceisio ennill darllenwyr newydd. Gwnewch wir! A Nadolig Llawen Fo Eich Tâl!

Rhes o Gyd-ddigwyddiadau Hynod a Diddorol

Gan W. S. Jones, M.A., M.Sc., Aberystwyth.

Caiff y rhai a dynghedir i deithio llawer brofiadau rhyfedd o dro i dro. Yn agos i hanner canrif yn ôl digwyddwn fod yn aros yn Llundain ac ymwelais ryw noson â chyfeillion yn Stoke Newington. Wedi cyrraedd eu cartref yr oedd yn rhaid cyfranogi o swper ac aeth yn hwyr cyn i'r gyfeillach derfynu. Wedi

agor y drws wrth i mi ymadael gwelwyd fod niwl tew myglyd—y math a eilw'r Llundeiniwr yn niwl cawl-pys—yn gordoi'r rhan honno o'r ddinas. Ni ellid gweld ar y gorau ond ychydig lathenni drwy'r gwŷll a chan fod yr ardal yn ddieithr i mi ymgymerodd un o'r teulu â'm tywys hyd at sefyllfan agosaf y bysau. Cyfnod y bysau ceffylau oedd—hen gerbydau tra phrydferth a mwy hamddenol y dyddiau a fu a'r gyrrwyr yn gydwastad â theithwyr y llofft agored ddi-do. Gofynnais i oruchwyliwr y bws gyntaf a gyrhaeddodd a oedd yn myned i'r Bank. Atebodd ei bod wedi gorffen rhedeg am y dydd. Daeth yr ail fws ac o holi cefais yr unrhyw atebiad. Er gwaethaf y tywyllwch fe oleuodd pethau ryw ychydig pan ddeallais fod y drydedd bws ar ei siwrnai olaf. Myfi oedd yr unig deithiwr a phenderfynais fyned i'r llawr uchaf i gael profiad trwyadl o fagddu Llundain mewn ffog. Eisteddais gerllaw'r gyrrwr i gael rhyw fath o ymgom. Canfûm yn fuan ei fod yntau cyn baroted â minnau am ymddiddan. Dyn siaradus oedd ac yn ddiymdroi fe'm hysbysodd (yn Saesneg) mai efe oedd y gyrrwr bysau hynaf yn y Brifddinas. Credais ei fod ar fin rhoddi ffordd i'w ddychymyg. Gofynnais iddo a dyna fu ei waith drwy ei oes hyd hynny a chefais yr ateb annisgwyl hwn—"O na pan oeddwn yn ddyn ifanc yr oeddwn yn gyrru fan bost o Landeilo i Gaerfyrddin ac weithiau byddwn yn mynd drwy Lanbedr i Aberaeron". Meddyliais innau, heb addef fy nghysylltiadau agos â'r parthau hynny, am y perygl iddo ef yn awr oni reolai ei ddychymyg a'i ramant. Yn hyderus aeth yn ei flaen â'i stori a dywedodd nad gyrrwr bysau ddylasai fod. "Dylaswn fod", mynegodd, "yn ŵr gweddol gefnog—yn berchen fferm Cilgell ger Llanbedr a rhan o fynydd Llancrwys". Deffrowyd fy niddordeb yn fwy fyth canys gwyddwn fod un o'r tair Cilgell yn eiddo perthynas i mi. Ychwanegodd—"Ymadewais a chartref yn ddyn ifanc a bu rhyw anghaffael ynglyn ag ewyllys a chollais yr eiddo ; ond os caf fyw yn ddigon hen mae'n bosibl yr etifeddaf ef eto". Parhau i wrando wneuthum a rhoi ambell broc anogaethol yma a thraw, canys yr oedd y stori yn cynhyddu yn ei diddordeb. Hysbysodd fy nghydymaith fi mai Cymro oedd ac mai ei enw oedd Griffiths. Gofynnais innau ai Cymraes oedd ei wraig. "O ie", atebodd, "a'i henw gwyryfol oedd Llewellyn". Manylodd a dywedodd mai yn y Wig (ychydig bellter o Llanilltud Fawr a Phenbont-ar-Ogwr) y priodasant ac mai gweinidog o'r enw Mr. Lloyd a wasanaethodd ar yr achlysur. Gwyddwn am y Wig yn dda—oni fu fy nhad yn pregethu yno droeon ?—a dyfalwn ai'r Parch. Evan William Lloyd a adwaenwn fel gweinidog yng Nghwmbach (Aberdâr) a weinyddodd yn y briodas. Rhaid oedd gohirio penderfynu hyd nes y cyrhaeddwn adref.

Edrychai'r hen ŵr a'i wraig ymlaen yn obeithiol am ddychwelyd i Gymru a diweddu ei hoes yn eu henwlad.

Mor ddiddorol fu'r ymddiddan yn y bws fel yr anghofiais bron yn llwyr dywyllwch dudew'r noson a chyrhaeddwyd ben y siwrnai cyn agos hysbyddu'r siarad na blino dim arno.

Pan welais fy nhad nesaf gofynnais iddo a fu Mr. Lloyd, Cwmbach, yn weinidog yn y Wig a'i ateb fu, "Naddo, ond fe fu ei dad".

Er fy amheuon naturiol ar ddechrau'r daith yn y bws, cyn ei therfyn fe'm hargyhoeddwyd yn llwyr o ddidwylledd yr hen ŵr a chefais yn ôl llaw brofion diymwad o wirionedd llawer a ddywedodd.

Ymhen blwyddyn neu ddwy wedyn yr oeddwn gartref ar fy ngwyliau ac euthum un bore i brynu newyddiaduron. Ymhlith eraill pwrcasais newyddiadur lluniau—un ai'r *Daily Sketch* ynte'r *Daily Mirror*. Gan fod y papur hwn yn un o blygiad hwylus fe'i darllenwn ar y ffordd yn ôl i'r tŷ. Ar dudalen newyddion gwelais lun bychan ac odditano'r geiriau "David Griffiths, the oldest bus driver in London, retires". Dyna'r dyn y cefais y fraint o'i gyfarfod unwaith yn fy oes yng nghaddug tew y Brifddinas. Wedi i mi gyrraedd y tŷ dyna ryfeddod ychwanegol. Pwy oedd yno'n fy nisgwyl ond perchennog Cilgell-isaf a ddeuthai o Forgannwg i Lanbedr yn ddirybudd. Wedi cyfarch gwell dywedais wrtho mewn digrifwch, gan estyn y papur iddo, "Dyma lun y dyn yr amddifadasoch o'i fferm". Edrychodd yn syn arnaf—pa ryfedd !—ac yna adroddais hanes y daith yn y bws. Hysbysodd fi na pherthynai y darn mynydd y cyfeiriwyd ato i'w fferm ef a llawenychais innau o ddeall nad oedd neb o'm tylwyth i wedi difeddiannau'r hen ŵr Dafydd Griffiths o'r dreftadaeth y daliai i obeithio y byddai iddo rywbryd yn y dyfodol ei hetifeddu.

(Rhyfedd cynifer y cyfeiriadau Undodaidd cudd ond hanfodol i'r hanesyn a geir yn yr adroddiad uchod : Miss Llewellyn, y Parch. Titus Lloyd, y Parch. Evan William Lloyd, y Parch. R. C. Jones, Mr. David Jones (Aberdâr), yr ysgrifennydd, Capel y Wig a Chapel Cwmbach).

[*Cyd-ddigwyddiad bach arall.* Yr oeddwn yn darlithio yn Aberaeron ganol mis Hydref. Gwahoddwyd fi i swper at ddwy chwaer y Misses Olive a Gower Jones ar ôl y ddarlith. Digwyddais sylwi ar lun hen weinidog ar y mur ac fe eglurwyd i mi ei fod yn frawd i'r enwog "Griffiths Horeb" ac yn ŵr o brofiadau rhyfedd fel aelod o'r Milisia yn nyddiau cynnar y ganrif o'r blaen ac fel gweinidog gyda'r Methodistiaid ym Mro Gŵyr. Euthum adref i Benlôn a dweud yr hanes wrth fy nhad ac yn rhyfedd iawn fe ddywedodd ef wrthyf fod y bwrdd bach crwn o dderi caled y bûm yn gwneud fy ngwaith cartref arno lawer gwaith yn eiddo gynt i'r hen "Griffiths" ac ymhellach fod brawd fy hen famgu wedi priodi â'i ferch. Paham tybed y mynnais dynnu siarad am y llun ar y mur a minnau yn ŵr heb lawer o ddiddordeb mewn lluniau ?—*Gol.*].

The Story of Wick

(A Special Supplement to "Yr Ymofynnydd").

I. SOME INTERESTING NOTES.

By The Editor.

Greetings.

To many Unitarians today Wick is but a spot marked on the map about half way along the road between Southerndown and Llantwit Major, but to our fathers, Wick was as well known as are Llwyn and Graig, Trebanos today. The roads are better today than they have ever been, but unfortunately, the ways of language have changed and the old Welsh route between Cardigan and Carmarthen and Wick has become almost impassable. It is, therefore, on the new road that we take our pilgrimage now to visit you, our old friends, whom we have not met for years. It is our fond hope that as we approach you will come out to meet us and perhaps some of you who have not lost all your Welsh will strive to brush it up so that even the other pages of this, our little magazine may not appear *foreign* to you.

And so we bring our greetings and best wishes to you. It is with pleasure that we hear of your efforts to keep the cause alive and with greater pleasure still we hear that you are attempting to expand your activities in various practical ways. May God bless you in all your ways and if there is anything we can do as ministers and lay members to help you, we are prepared to do our best. And of course, *A Merry Christmas to you all!*

The Place-Name, Wick.

Although we would like to think that the name of your village is derived from the Welsh, *Wig* (meaning forest) we cannot be sure. The place is called Wig in Welsh but it is possible that Wick or some similar form of the word is the true original. In the Cardiff Public Library there is an old Charter recording the gift of certain lands to Neath Abbey (MS. 83/33), and in that we find this sentence, ". . . inter dictam Viam sancte Brigide et Villam de Wyke . .." which rendered into English means, ". . . between the said Way of St. Bridget and the town of Wyke . . .". So now you know, henceforth let Wick be called a town! This charter by the way was written sometime between 1140 and 1180 and proves that Wick is a very well established old place.

Again, the name Wick could be derived from the Old English

word "Wic" which can mean a row of houses, a village, an abode or a dairy farm. This word in various forms appears in many English place names, usually as a sufficx, as in Warwick, etc. I have seen other references which point to the possibility of "wick" being the name of a bay as in Berwick, or as a variant of "wych" as in Droitwich where there is a connection with the craft of salt making. Salt was at one time made extensively by distilling sea water, is it possible that salt was made at one time in this way somewhere in the region where you village now stands? All this is pure conjecture but very interesting to follow all the same.

Wick in More Recent Times.

We find some very interesting notes in the Lewis' Topographical Dictionary of Wales, published in 1842 and I took some notes from it by the courtesy of Mr. W. W. Price, M.A., the Aberdare historian

"Wick, a parish in the union of Bridgend and Cowbridge, hundred of Ogmore . . . containing 349 inhabitants. The Church dedicated to St. James, is not remarkable for any architectural details. There are places of worship for Unitarian Babtists and Calvinistic Methodists . . . Anthony Patch bequeathed £5, Thomas Williams a small rent charge, and two unknown benefactors, the respective sums of £14 and £10, for the relief of the poor . . . Near the Church (St. James) are the ruins of an extensive building, covered by ivy, supposed to have been a religious house, though there is no record of such an establishment; by others it is thought to have been one of the ancient halls so frequently met with in this county, in which the lords marchers held their courts . . ."

How many changes have there been since 1842? What has happened to the money and rent left for the relief of the poor? Has the population increased? These are some of the questions you could discuss in your new hall one *rainy night!*

The General Baptist Academy.

A few notes on this topic may be of interest to those who still uphold the worthy banner of General Baptism in Wick. They have been gleaned from George Eyre Evans' little treasury, "Antiquarian Notes" (1899, Nos. iv—vii).

"In the year 1794, the General Assembly of the General Babtist Churches determined to form a fund, for defraying the expenses attending the instruction of young men of abilities; this plan appearing to the elders and representatives as the most effectual means for the supplying of learned ministers of the Gospel for the churches on the roll . . ." Some Welsh names appear in the Lists of Students who studied in this "Academy".

"Under the Rev. John Evans, Ll.D.
1795—1818

William Thomas, Sep.—Dec. 1801.—Ill health prevented him from finishing his career. died early.

David Thomas, 1801—1803.—Died before 1819.

John Thomas, 1815—1816.—Ill health prevented him from finishing his career ; preached occasionally at Llanelly, and Llangidairn. died of consumption 1819.

* * *

John Williams Morris, 1808—1810. b. 1792 at Carmarthen ; student M.C. York 1814—1816, min. Lewes 1811—1814 "where his labours are acceptable", Dean Row 1817—1843 ; d. 15 Oct. 1843.

William Rees Jones, 1808—1810 ; preached Chichester 1810 . . . d. 1812".

All these men seemed to have died young and it is interesting to note that a Welsh tutor in the person of John Evans attracted a goodly number of Welsh students. There are no "Welsh names" in the periods where the tutors appear to be Englishmen. Is it possible that the Academy circulated and was situated in Wales in John Evans' period ?

A footnote appears at the end of the list and it says,

"*From 1851 to 1855 the sum of £85 was granted towards the education of John Briggs Lloyd and £55 towards that of his brother Evan Lloyd, sons of Titus Lloyd, G.B. min. at Wick 1847—78 . . .*"

An Old Diary for 1854.

A copy of E. W. Lloyd's "The Unitarian Almanack for 1854" was given me recently by Mrs. J. R. James, the League Secretary, and in it we find some interesting entries. As will be gathered from the above footnote, Evan Lloyd was a student at the time. Here are some of the entries :

Sun. Feb. 5. I have promised to be down at St. Clears (fulfilled).

Sun. Feb. 19. I have promised to be at Llwynrhydowen and Bwlchyfadfa. (Note that there is no *fulfilled* here !).

Sun. Feb. 26. I have . . . Cwmmawrdu (been).

Sun. March 19. I am to be at Swansea (been).

Wed. Mar. 22. G. B. Brock left Swansea for Exeter.

Sun. Mar. 26. I was up at Cwmmawrdu . . .

Wed. April 19. The Easter Quarterly meeting was held at Carmarthen. On the 19—Mr. Beynon introduced. Mr. J. E. Jones (Bettws and Bridgend, founder Editor of Yr Ymofynnydd

preached in English and Mr. D. Evans in Welsh . . . Wednesday morning Mr. Davies introduced, Mr. James preached in Welsh and Mr. Lunn in English before Mr. James. (Lunn was minister at Merthyr).

Sun. May 14. E. W. Lloyd preached at Swansea.

Thur. June 29. The College broke up for the Midsummer vacation. Brother John won a prize at the examination.

Tu. July 4. Yearly meeting at Pantydefaid.

Sun. Nov. 12. Blaengwrach—The promise fulfilled.

Sun. 19 Nov. Was up at Llwyn and Bwlchyfadfa. (*He went after all !*).

Sun. 26 Nov. Swansea. Revd. Titus Lloyd.

Sun. 16 Dec. E. W. Lloyd's birthday aged 22 years. Born in the year of our Lord 1832. Dec. 16th.

Thurs. Dec. 21. College broke up for Xmas vacation.

Sun. Dec. 24. Swansea, I was at Blaengwrach, preached in the morning, was up at Mr. Thos. Davis's house in the afternoon.

Thur. Dec. 28. I went up to Trowbridge to Mr. Martin (Unitarian Babtist Minister), and remained there until the following Wednesday week, from thence to Frenchay to Mr. House and remained there until the following Friday afternoon,—Bristol one night.

Thus you see how Wick and her sons served us in days gone by, and it is very sad to note that many of the churches which he served a hundred years ago are no longer with us, Cwmmawrdu (Carms.) is closed, Blaengwrach (Neath Valley) is in ruins and so is the St. Clears chapel. Let there be no more !

Have You Anything to Add ?

Are there any old papers or books still left at Wick ? Please retain them with care and if they are in Welsh we would be glad to see them. Wick has a wonderful story to tell and if the future is to be bright it must not forget the past.

(For those who have old copies of Yr Ymofynnydd interesting material may be found in the Vols. for 1891, p. 91 ; 1905, p. 113 ; 1931 [May and June ; articles on Nottage and Wick by T.O.W.]).

Wick

(II)

(A GENERAL BAPTIST CHAPEL 1792).

By T. Oswald Williams.

Many of my readers will not have heard of the General Baptist Chapel at Wick, Glamorganshire, and probably very few know of its existence. It is over a quarter of a century since I visited the quaint little chapel, but I can vividly recall it to mind. Each of these small causes up and down the country is a living page in the history of religion. If I remember rightly I have a photo of ' three dear ones to me ' taken in its closed doorway. That day its door was locked, and the caretaker for all I knew might be living miles away, so I had to be content with an outside view of this quaint little house of God. I have never been privileged to worship there, but I would have liked to have stood with bowed head for a few brief moments within its hallowed walls in order to try to understand what has endeared it to ' a faithful few ' throughout the years.

Its history is an interesting one, for it is one of the three General Baptist Chapels in Wales which remain in the possession of the Unitarians. It is unkind to say, when the majority of the congregation are Unitarians, that they have dispossessed the others of their property, while when the Unitarians of a congregation are in the minority and have to seek a place of worship elsewhere that it is fair and just. A little of the spirit of Christ would not harm many of our denominational historians. It is well to define our terms, for the term General Baptist may be meaningless to most of my readers.

General Baptist is the name given to a body of Baptists who had originated prior to 1608, had been organised before 1651, and had kept their corporate existence throughout the years, holding the Arminian doctrine of "*General Redemption* or that *Christ had died for all men*".

It was towards the beginning of the Seventeenth Century that the points in dispute between Calvinists and Arminians were closely discussed, and in 1610 the Arminian creed was formulated in the celebrated *five articles*. About the end of 1607 or the beginning of 1608 the Church of Gainsborough crossed over to Holland and a few months later it was followed by the Church of Scrooby. Towards the end of 1609 Clifton accused Smith of being ' taynted with the errors of General Redemption and free wil.'

About the time of Smith's death there was a difference of opinion in the church in Holland, and John Murton and Thomas Helwys returned to England and founded the first Church of the General Baptists in 1612, and this term meant 'that the possibility of Redemption had not been confined to the Elect but was open to all.' In 1623 in "*A Discovery of the Errors of the English Anabaptists*" it was shown that the General Baptists did not believe in Election, Original Sin and Infant Baptism but in free will and Adult Baptism so that a person could have repented.'

That in brief is the background.

Throughout the eighteenth century on reading the churches' letters to the Association we find that Arminianism troubled the Baptist churches in Wales, and on May 28, 1790 the Rev. William Williams of Pantycelyn wrote to the Rev. Thomas Charles of Bala, "There are palpable and dreadful errors in the country and new and destructive heresies brought to light . . . such as denying the doctrine of the Trinity . . . and also the divinity and sonship of Christ . . . Believe me, dear Charles, the Antitrinitarians, the Socinian and Arian doctrines gain ground daily".

In 1799 things came to a head, and at the Association Meetings (Baptist) at Salem, Mydrim some eleven churches were deprived of their membership of the Association : some fourteen churches later lost their chapels to the Unitarians (i.e. the Unitarians were in the majority in them) for a time at any rate, while some twenty two small causes were formed in Wales as General Baptist following the rift in 1799.

Several of the great men of the Baptist Movement became General Baptist, and among them were Dr. Nathaniel Williams, Dr. William Richards of Lynn, Rev. William Williams, J.P., Cardigan, Rev. Benjamin Phillips, St. Clears and others. During the first quarter of the nineteenth century there were some thirty ministers designated as General Baptists. The tide was flowing strongly between 1806 and 1810, and then it receded rapidly leaving only Wick, Nottage and Panteg to remind us of the great liberal upheaval in the Baptist movement in Wales in the early part of the Nineteenth century.

With that historical background we can picture the General Baptist cause at Wick the more clearly.

Early in the eighteenth century a Baptist cause had been established at Penfai, and also in the parish of Newtown Nottage, but in 1788 owing to a difference about doctrine at Penyfai Church "*About 15 Members headed by John David of Wick converted a house at Nottage into a Chapel*". The congregation was accepted to membership of the Association at Maesyberllan in 1789, and the same year they extended a call to Mr. David Powell of Felinfoel. *In his time as minister the church decided to erect a chapel at Wick*, and also a minister's

house. In Jones' History of the Baptists it is said "That Mr. Powell collected all the money but every thing has been for years in possession of the Unitarians—one of the deacons having beguiled Mrs. Powell on her husband's death into giving him the deeds". On the face of it that sounds very far fetched. The deacon who beguiled (?) Mrs. Powell must have been an Unitarian, and most likely the majority of the congregation were Unitarians. The handing over of the deeds would not constitute a legal title, and I wonder if those deeds are still in existence in order to prove or disprove this fairy tale.

All we know at present is that there was difference of opinion in many of the Baptist Churches at this time in regard to many of the chief articles of the Christian Religion. Wick was no exception and probably Mr. Powell was vexed greatly by Socinianism and Arminianism. Possibly after all it was only General Redemption versus the Redemption of the elect. Powell died young and the tablet says,—

> "To the memory of David Powell, Minister of the Gospel At Nottage and Wick who departed this life Feb. 25th 1797 aged 40".

His successor David Richards was here only for a very short time in 1799. The congregation was in a turmoil, the Arminians being led by the brothers John and David Davies and the Calvinists had or chose to retire from Wick and Nottage in 1800, and founding a Baptist cause later at Bridgend in 1808, but for some time they rented a house close by Wick Chapel for worship.

After the secession in 1800 Wick General Baptist Church has had a succession of Unitarian Ministers commencing with the Rev. Evan Lloyd. He was born in the parish of Nevern, Pembrokeshire in 1765, and was in the militia at the time of the French Landing at Fishguard in 1797. He began to preach at Ebenezer (Pem.) of which the Rev. William Williams, J.P., Cardigan was minister, and Lloyd possibly was his assistant for a time. During the disruption culminating in Salem in 1799, Lloyd found himself with leanings towards the General Baptists, possibly owing to the influence of the Rev. William Williams. Lloyd was ordained minister at Ffynnonhenry in 1801, but he was soon troubled in mind over the great questions that divided the churches. Previously he had been an itinerant preacher among the Baptists. After the Association Meeting at Salem (1799) the ministers were called upon to subscribe to the Trinity as a condition of receiving help from the Baptist Fund in London. Lloyd refused though he was at the time in need owing to his increasing family. He received help from Dr. Richards of Lynn, and he severed his connection with the Particular Baptists, and possibly was for a time in charge of Soan and Tycoch

in Cardigan after the death of the Rev. David Thomas, March 3, 1806. He could not have been there for long, for in the Monthly Repository 1806 (p. 610) we find,—

"Welsh General Baptists, May 13 and 14. Annual Assembly . . . Evan Lloyd (Newton) concluded".

The date given for his removal to Glamorgan is usually given as January 1808 but this note in the Monthly Repository seems to be definite and conclusive, for 1806. He laboured conscientiously for his people,—

"In memory of Rev. Evan Lloyd. Born March 21 1764. Died July 30, 1847. He was the first Unitarian Min. of Nottage and Wick, which he ably served for forty years".

Owing to his failing health during the latter years of his life his son the Rev. Titus Lloyd was ordained as co-minister, Aug. 7,1837. Titus Lloyd was born May 1795 in the parish of Bridell near Cardigan. He began preaching about 1823 and was ordained some years later at Wick. He took charge of Nottage also on the death of his father. During the last year or two of his life he was assisted by his eldest son, also named Titus.

"The Tev. Titus Lloyd who for upwards of fifty years ministered to the congregation worshipping in this chapel. Died Oct. 23, 1878 aged 84 years. This tablet is erected to the memory of the faithfulness with which he discharged his duties as a Christian Minister".

The Lloyd family has served Wick and Nottage for well over a hundred years.

Evan Lloyd (1764—1847)
|
Titus Lloyd (1795—1878)
|

Titus Lloyd (1824—92) Served Nottage for 3 years	E. W. Lloyd (1832—94) Cwmbach and Blaengwrach	J. Briggs Lloyd (1836—97) (Served in England)	Daughter | W. J. Phillips (Min. 1889—1928).

On the death of Titus Lloyd, Wick was without a minister for some time but in 1880 the Rev. William Parry of Rhyd fach Llanwnen became minister and remained there untill 1895. In November 1899 he served a writ on the Bridgend Chapel trustees but the case went against him. This possibly embittered the Minister, and did not do the churches any good. Parry died in retirement on Nov. 17, 1927 at the age of 71. The ministeries that followed were

all comparatively short, and the cause suffered in consequence. It is not for me to prophesy for the future. Sufficient it is for me to chronicle the events of the past. The light still burns dimly, but we can play on the word and say that the '*wick*' splutters and smokes often.

The following is a list of those who preached the *Word* here.

David Powell	1792—1797
David Richards	1799
(The calvinists seceded in 1800)	
Evan Lloyd	1806—1847
Titus Lloyd (ordained copastor with his father Aug. 7, 1837	1837—1847
Minister 1847—1878)	
Aided by his son during the last three years	
William Parry	1880—1895
W. J. Phillips	1895— 98
David Evans	1898—1900
W. J. Phillips	1901—03
D. G. Rees	1903—04
Supplies 1904—1912	
J. P. Kane	1912—1917
J. F. Ling (Layworker)	1918—1935
T. L. Jones (Minister-in-charge)	1936—37
E. J. Williams (L.C.)	1937—1947

(Editor's Note : The Rev. T. O. Williams, M.A., who contributed this scholarly article is the Unitarian minister of Brondeifi and Caeronnen Churches in Cardiganshire. He has been Mayor of Lampeter on three occasions, is a Freeman of the Borough, a member of the Cardiganshire County Council and is the acknowledged historian of Unitarianism in Wales).

Marwgofion

Awst 14 yn 73 mlwydd oed bu farw SARAH REES, gweddw y diweddar Ivor Rees, Tremvan, Cwmanne, Llanbedr, wedi gwaelu'n hir. Benyw siriol a charedig ydoedd ac iddi air da gan ei theulu a'i chydnabod. Bu hi a'i phriod am flynyddoedd yn amaethu yn Rhiwlas a Thalfedw ond ers tro bellach yn byw yn Nhremvan. Gadawodd un mab, chwaer a pherthynasau craill i alaru o'i cholli. Claddwyd ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd yn yr angladd anghyoedd gan Ficer Pencarreg a'r Parch. T. O. Williams. Heddwch i'w llwch.

Medi 20, yn 73 mlwydd oed bu farw MARTHA JONES, priod Capten Jones, Elders, Heol y Bont, Llanbedr. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers tro ond ehedodd adref ar fyr rybudd. Benyw urddasol ei threm a'i chymeriad ydoedd ac yr oedd yn garedig a siriol bob amser. Hannai o hen gyff Undodaidd a dychwelodd i orwedd gyda'i theulu ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn yr angladd anghyoedd gan y Parch. Trevor Lloyd (ei gweinidog), Canon Jenkins a'r Parch. T. O. Williams. Gadawodd ddau fab a merch, brawd a chwaer heblaw ei phriod i alaru ar ôl gwraig siriol a mam ofalus. Cysured yr Arglwydd hwy yn eu hiraeth.

Medi 10, yn 62 mlwydd oed, bu farw RACHEL ANN DAVIES, priod Samuel Davies, Dyffryn, Llanbedr a merch y diweddar Mr. a Mrs. Daniel Lloyd, Llysfaen, Llanwnen. Yr oedd wedi gweld cystudd hir, a'r gwaethaf amdani ydoedd yr oedd ei phriod hefyd yn gystuddiol ers tro. Ar waethaf hyn i gyd ni chwynai ac ni rwgnachai. Ni fynnai fod yn boendod i'w theulu ac yr oedd hyd y diwedd ar ei gwên. Claddwyd ym mynwent Bethel, Silian, yr angladd yn anghyoedd, a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, Ellis Jones a Dewi Jones, Ficer Silian. Gadawodd briod llesg yn gystuddiol ; meibion a merched heblaw perthynasau eraill i weld eisiau un a wnaeth ei gorau drostynt drwy gydol bywyd.

Dydd Mercher, Hydref 27, yn Ysbyty Tanybwlch, BENJAMIN JOHN JONES, Troedyrhiw, Llandysul yn 53 oed. Bu iddo hir gystudd, ac ymdrechodd yn ddewr am wellhâd. Nid felly y bu, ac ar ôl bod dan driniaeth law-feddygol yn Aberystwyth daeth y diwedd yn dawel. Mab ydoedd i'r diweddar hoffus Ben Jones a Mrs. Jones, Ffatri Abercerdin. Dysgodd ei grefft ac ef eto'n ifanc, ac ar ôl marw ei dad bum mlynedd yn ôl, cymerodd ofal o waith y Ffatri i gyd. Dengys ei waith iddo fod yn grefftwr medrus, a dilynai ei grefft gyda'r gonestrwydd hwnnw sy'n gweddu i bob gweithiwr da. Siom fawr ei fywyd oedd i'w afiechyd hir ei rwystro i roddi ei hunan yn llwyr i'w alwedigaeth. Yr oedd yn gymeriad hoffus. Hardd o wedd a gwên, a gair caredig yn groeso i bawb. Nid yn fynych y gwelid un mwy parod ei reswm, a phob amser ac ateb ganddo dros yr hyn a gredai. Felly gellid disgwyl, dysgwyd yn ieuanc i barchu ei Gysegr. Yn wahanol i ambell Undodwr o wraidd, cadwodd yn ffyddlon i'w gapel, a thyfodd mewn argyhoeddiadau Crefyddol. Hyd y gallai, deuai yn gyson i bob cyfarfod cysylltiedig â'r achos. Dilynai ei Dad fel un o ymddiriedolwyr y Graig, ac aelod o'r pwyllgor gwaith. Yn nyddiau ei ieuenctid cymerai ddiddordeb ym mudiadau ieuenctid y pentre, a pherchid ef gan bawb. Daearwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid y Sadwrn dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. Marles Thomas, Aubrey Martin a Morlais Evans, Pisgah a Phantycrugiau ; yn y Capel gan ei Weinidog a'r Parchn. D. Rhydderch, Seion, Davies, Llanfarian, a T. R. Evans, Ficer y Plwyf. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Nansi Jones, B.A., Tregroes. Gedy ar ôl mewn hiraeth Briod, Hugh, eu mab bychan, ei Fam oedrannus, a thri brawd. Boed iddynt ymgeledd y Nef.

Bu farw LEWIS JAMES GRIFFITHS, plentyn bach Mr. a Mrs. Griffiths, Bryndolau, Pontsian ar y 31 o Hydref, heb fod ond 6 mis oed. Daearwyd yr un bach ar y 4 o Dachwedd ym Mwlch y Fadfa, y Parch. A. J. Martin yn gwasanaethu.

Tachwedd 6, yn 82 mlwydd oed, bu farw MARGARET DOROTHY EVANS, (merch y Temperance), o Gwenlais, Ravenhill Road, Swansea, yn Ysbyty Gellinedd, Pontardawe. Yr oedd wedi ymadael â Llanbedr ers blynyddoedd meithion ond y mae lle cynnes yng nghalon aelodau Brondeifi i deulu'r Temperance. Onid ei thad a gododd Brondeifi a Chapel y Groes, onid wyf yn camgofio. Bu yn *ffyddlon* a *gweithgar* ym Mrondeifi ac yma y gorwedd ei merch a'i phriod. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mercher canlynol ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd (yr angladd yn anghyoedd) gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan nai yr ymadawedig (Ficer Fishguard, Sir Benfro). Huned yn dawel gyda'i hanwyliaid ym mynwent gysegredig Brondeifi.

Bu farw DAVID DAVIES yn ei gartref yn Fern Lea, Caerdydd, ar y 7fed o Dachwedd ac yntau yn 90 oed. Ganwyd ef yn Ystrad, Ceredigion ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ym Mhontypridd lle'r oedd yn ŵr busnes poblogaidd fel pennaeth "D. Davies and Sons, Peirianwyr." Cymerodd ran flaenllaw ym mywyd crefyddol a pholiticaidd Pontypridd ac yr oedd yn flaenllaw ymhlith sefydlwyr yr eglwys Undodaidd yno. Bu'n ysgrifennydd yr Eglwys am flynyddoedd lawer ac ar hyd y blynyddoedd yn aelod ffyddlon. Mynychodd y gwasanaethau hyd at yr wythnosau diwethaf o'i oes er gwaethaf llesgedd a cholli ei olwg a phellter y daith o Gaerdydd i'w hen dref. Bu yn gadeirydd ac ysgrifennydd i'r "Amalgamated Society of Engineers" a nodweddid ei waith gan grefft drylwyr a gwnaeth waith arbennig i'r Llynges (Admiralty). Gwelir ei waith hefyd, ac eiddo ei feibion, yng Nghrematoriwm Glyn Taf. Ymddeolodd o'i lafur dair blynedd ar hugain yn ôl ond ni laciodd ei afael ar brif ddiddordebau ei fywyd. Gwelsom iddo roddi cyfraniad hael i'r Ymofynnydd yn ddiweddar a haerai iddo ei ddarllen yn gyson am dros bedwar ugain mlynedd. Lludwhawyd ei weddillion yn y Thornhill, Caerdydd y dydd Iau canlynol a'r Parch. Alan Taylor, ei weinidog, yn gwasanaethu. Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch am ei fywyd gwasanaethgar yng Nghapel Pontypridd y Sul wedyn a daeth tyrfa o'i hen gyfeillion ynghyd i dalu'r deyrnged olaf hon.

Sadwrn, Tachwedd 13, yr Henadur JOSIAH R. JONES, Y.H., Derw Cottage, Llwyndafydd (gynt Garthowen, Pontshan) yn 77 oed. Ynddo ef "bu farw Barnwr yn Israel". Weithiau gwireddir i'r ymylon yr hen ddywediad "Hysbys y dengys dyn o ba radd y bo'i wreiddyn," ac mewn ambell i gymeriad gwelir y gwreiddiau yn bwrw allan, ac yn dwyn ffrwyth i aeddfedrwydd. Felly y bu ym mywyd y Cynghorwr Josiah Jones. Mab ydoedd i'r diweddar Thomas Jones, Arwerthwr, Cwrtnewydd. Yn un o bedwar o frodyr, derbyniodd ei addysg fore yn hen Ysgol Pontshan. Ai yn gyson

gyda'r teulu i addoli i Gapelybryn. Yn gynnar, gwreiddiodd yn ddwfn yn y traddodiad Undodaidd, ac er iddo deithio byd ni anghofiodd dreftadaeth y Tadau. Yn llencyn ifanc danfonwyd ef i Taunton, ac yn ddiweddarach i Shrewsbury i ymbaratoi ar gyfer gwaith ei fywyd. Yr adeg yma bu farw ei dad, a daeth yntau yn ôl i'w hen Sir i gymryd gofal o'r fusnes arwerthu. Ymdaflodd ei hun i'r gwaith â'i holl egni, a thrwy ei oes bu iddo lwyddiant eithriadol fel Prisiwr ac Arwerthwr. Eithr, nid gŵr y fusnes yn unig oedd ef. Breintiwyd ef â thalentau disglaer fel dyn cyhoeddus, ac am flynyddoedd lawer rhoddodd o'i wasanaeth i'r cyhoedd. Am dros ddeugain mlynedd bu'n aelod o'r Cyngor Sir ; gwasanaethodd y Cyngor hwnnw ar wahanol bwyllgorau, ac yn 1923-24 fel Cadeirydd. Am yr un cyfnod bu'n aelod o Fwrdd Llywodraethol Ysgol Sir Llandysul, ac yn Gadeirydd y Bwrdd yn ei dro. Yn 1928 rhoddwyd arno yr anrhydedd o gynrychioli ei Sir fel Uchel Siryf. Yn 1926 dyrchafwyd ef i fod yn Ynad Heddwch,—ac eisteddai ar Fainc Llandysul. Yn ystod ei flynyddoedd olaf fel Cynghorwr Sir llanwodd ei le gydag anrhydedd fel Henadur. Drwy ei gymeriad, ac yn ei wahanol swyddi, bu'n fawr ei ddylanwad a'i ddaioni yn y wlad. Hwyrach i'w grefydd ddeffro y peth byw hwnnw—a'i haflonyddai drwy ei oes i geisio llwybyr dyletswydd a gwasanaeth.Yr oedd yn Undodwr o sêl ac egwyddor. Perthynai iddo ar-gyhoeddiadau grymus. Yn wir, nid ofnai draethu ei farn ar unrhyw gwestiwn o bwys heb ddisgwyl ffafr yn dâl, nac arian yn wobr. Cân ganddo bob rhith duwioldeb, a chaseai gau grefydd â chân perffaith. Credai yng nghrefydd Mab y Saer yn ei symledd pur. Hoffai wrando pregethwyr a phregethau, a cheisiodd gael gan eraill i barchu pethau Crefydd. Oddi ar iddo ymsefydlu yng Ngarthowen a phriodi i fewn i deulu yr Hybarch. William James, Llandysul, addolai ym Mhantydefaid. Colled fawr i'r eglwys honno fu ei golli ef. A cholled hefyd i Undodiaeth y Sir. Bu'n Lywydd y Gymdeithas ; yn Gadeirydd y Gymanfa Ganu am flynyddoedd, ac hyd at ei afiechyd olaf mynychai y gwasanaethau ym Mhantydefaid gyda chysondeb. Bu yn briod ddwywaith : (1) Miss Tydfil James, Brynhyfryd ; (2) Miss Griffiths, merch y diweddar Capt. a Mrs. Griffiths, Derw Cottage, Llwyndafydd : yno y treuliodd yn ddedwydd flynyddoedd olaf ei fywyd. Lludwhawyd ei weddillion ym Mhontypridd ddydd Mercher, Tachwedd 17. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas a'r gwasanaeth yn anghyoedd. Traddodwyd ei lwch i orwedd ym mynwent Pantydefaid y dydd Iau dilynol, a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, J. Marles Thomas ac Aubrey Martin. Estynnir ein cydymdeimad â'r weddw, ac â Mr. Elgan Jones, Garthowen, a'r teulu, yn eu hiraeth.

Bedydd.

Sul, Medi 26, gan y Gweinidog ym Mhantydefaid—DAVID JOHN LLOYD-DAVIES, mab bychan Mr. a Mrs. Tom Davies, Gwarcefel Farm, "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi,"

Priodasau.

Medi 24, yn Eglwys Llangeler, Miss MARY DAVIES, unig ferch Mr. a Mrs. Davies, Frongelli â Mr. D. G. E. DAVIES, M.R.C.V.S. (mab y diweddar Mr. William Davies a Mrs. Davies, Faerdre), Llandysul.

Medi 25, yn y Swyddfa Gofrestri yn Aberteifi, Miss NANNA THOMAS, merch Mr. a Mrs. Thomas, Nantcwnstabl, a Mr. DAVID WILLIAMS, mab Mr. a Mrs. T. J. Williams, Ffractri Pantolwen.

Hydref 9, 1954, yng Nghapel Brondeifi gan y gweinidog y Parch. T. O. Williams, M.A. unwyd mewn glân briodas 'ROWENA' unig ferch Mr. a Mrs. Tudor Davies, 1, Mill Street, Llanbedr a Mr. ROYSTON GRIFFITHS o Ystradgynlais. Dyddiau o hapusrwydd ac iechyd i'r ddeuddyn ifanc.

"Hir bo eu hoes a dedwydd eu dyddiau."

Newyddion yr Enwad

YSGRIFAU SAESNEG.—Cyhoeddir dwy ysgrif Saesneg yn y rhifyn hwn er mwyn cofnodi hanes un o'r hen achosion hynny a gollodd iaith y tadau, gwaetha'r modd. Gwnawn hyn er cefnogi yr ychydig sy'n dal yn ffyddlon yn Y Wig, a derbyniais archeb am hanner cant o gopïau oddi wrthynt. Ni chymer yr *Inquirer* nemor ddim diddordeb yn hanes eglwysi Cymru a gwn na fydd y Cymro mwyaf poeth yn gomedd i mi ddefnyddio ychydig o dudalennau fel yma er ceisio cadw'r hen bartneriaeth yn fyw.

GAIR AT OHEBWYR.—Ysgrifennwch yn glir. Ysgrifennwch yn aml. Ysgrifennwch ar un ochr y ddalen yn unig. Ysgrifennwch ar wahanol destunau ar dudalennau gwahanol, e.e. na rodder Marwgof a Newydd a Phriodas ar yr un dudalen. Bydd hyn yn arbed y Golygydd o'r drafferth fawr o ail gopïo peth wmbredd o fanion. Diolch.

CAERONNEN.—Cynhaliwyd y cwrdd hwn eleni ym mis Hydref a'r Parch. A. J. Martin yn gwasanaethu. Cafwyd pregeth amserol ganddo. Cyfeiliwyd gan Miss Eluned Davies, Maesyderi. . . . Llawenha cynulleidfa fach Caeronnen yn llwyddiant Miss Eluned Davies ar basio arholiad Swyddog (Executive Officer) y gwasanaeth Sifil a hithau mor ifanc. Gwerthfawrogwn ei gwasanaeth ffyddlon wrth yr organ ac wrth ei llongyfarch datganodd ei gweinidog y gobaith na olyga'r dyrchafiad hwn ei symud o'n plith i ardal arall. Ni allwn fforddio colli rhai fel hyn o'n cynulleidfaoedd Cymraeg . . . . Un nawn Sul yn Hydref derbyniwyd dau aelod newydd, Mr. a Mrs. Howells, Caerau, Cellan. Bu'r ddau yn addoli yng Nghaeronnen ers tro ond yn aelodau mewn capeli eraill. Estynnwn ddeheulaw Cymdeithas yn wresog iddynt a gwyddom y byddant yn ffyddlon i arfer hen deulu'r Caerau,

YMDDIHEURIAD.—Ymddiheuriwn i deulu'r diweddar David Bowen am i wall argraff ychwanegu "Thomas" at ei enw. Ni ŵyr neb sut y digwyddodd hyn a phrysurwn i'w gywiro fel yma.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Ein huchel ŵyl ddiweddaraf oedd y Cyfarfodydd Blynyddol a gynhaliwyd ar y Sul, Hydref y 17 a'r nos Lun ganlynol. Yr ydym yn dra dyledus i'r ddau fyfyriwr ifanc a ddaeth â llawnder i'r pulpud y tro hwn. O ddechreuad Mr. Watkin Davies yn y bore hyd at gloi'r gwaith gan Mr. Elwyn Davies, B.A. nos trannoeth cawsom bedair pregeth sylweddol, gyda sirioldeb soniarus y blaenaf ac arafwch mesuriadol cywrain yr ail. Yr ydym yn dra ffodus fel enwad ynddynt. . . . Daeth Mr. Watkin Davies atom yn ddiweddar hefyd fel Llywydd Pobl Ifainc Undodaidd De Cymru pan gynhaliwyd y Rali yma ar y 13 o Dachwedd. . . . Y Parch. T. O. Williams a wasanaethodd yn ein Cyfarfodydd Diolchgarwch ar Sul, Hydref 31. Cafwyd pregethu grymus. Deallwn fod Mr. Williams wedi cwblhau ysgrifennu hanes y Mudiad Undodaidd yng Nghymru a mawr obeithiwn am weld cyhoeddi'r gwaith yn gyfrol cyn hir. Oni ddylasem fel enwad roddi pob cefnogaeth i'r antur ? . . . Cychwynwyd gwaith y Gymdeithas Ddiwylliadol a ffurfiwyd ym mis Medi ac fe gawsom luniau lantarn lliw ar nos Iau, Hydref 28 gan Mr. Bryn Jones, un o blant yr eglwys, a ffotograffydd o athrylith. Y mae'r Gerddorfa wedi ail-gychwyn ac fe glywn am ragor o sasiynau eto. Awn Ymlaen !

RHAGLEN GWILYM MARLES.—Diolch i'r cyfeillion a ysgrifennodd i gymeradwyo'r gwaith. Mawrygaf deimladau da rhai ohonoch sy'n dymuno cael cyhoeddi eich cymeradwyaeth yn Yr Ymofynnydd. Ofnaf na fedraf wneud hynny ac anheilwng ar fy rhan fyddai defnyddio'r cyhoeddiad er canu fy nghloch fy hun !

DADORCHUDDIO MAEN COFFA I'R DIWEDDAR. BARCH. E. O. JENKINS YNG NGHAPEL Y FADFA.

Beth amser yn ôl dadorchuddiwyd Maen Coffa i'r diweddar E. O. Jenkins yn Llwynrhydowen ac yn awr dyma faen arall er cof amdano wedi ei osod ar fur Capel y Fadfa. Trefnwyd y cwrdd arbennig hwn fel rhan o Gyfarfodydd yr enwad yn yr un lle ar ddydd Mercher, Tachwedd 3. Cadeiriwyd gan y Parch. Aubrey Martin (gweinidog), ac fe gymerwyd y rhannau defosiynol yn ddeheuig dros ben gan Mr. Watkin Davies, myfyriwr. Agorwyd yr anerchiadau gan y Prifathro J. D. Jones a gyhoeddodd mai Cwrdd Diolchgarwch oedd hwn am gynhaeaf mawr gŵr a fu'n gweithio'n ddiwyd yng ngwinllan Duw. Cofiai amdano fel lluniwr pregethau a charwr pregethu ac fel gŵr ffyddlon i'w enwad a'i gyfarfodydd. Ei daith olaf un oedd ei daith i Gaerfyrddin i gyflwyno myfyriwr i'r weinidogaeth, Mr. Watkin Davies. Yna dadorchuddiwyd y garreg gan nith i'r diweddar weinidog, Miss Jenkins, Glenover, Llanbedr, a'i geiriau syml ond effeithiol dros ben oedd, "Er cof am f'annwyl ewythr." Ac o dynnu'r llen gwelsom y maen marmor a'r geiriau canlynol arno :

"Er cof annwyl am Evan Oliver Jenkins, gweinidog Bwlchyfadfa a Llwynrhydowen, 1902-1951. Bu'n fugail ffyddlon, yn gymwynaswr parod ac o blaid pob mudiad dyrchafol."

Wedi'r dadorchuddio cawsom atgofion bore oes am weinidogaeth Mr. Jenkins gan y Parch. J. Marles Thomas, un o briant yr eglwys. Gynt, meddai, yr oedd drych ar y mur lle safai'r garreg newydd hon a dylasem edrych ar y garreg hithau fel drych i weld pethau gorau bywyd ynddi. Yn y llun ar y garreg yr oedd modd gweld Cydwybod, Gwasanaeth a Chariad ar eu gorau. Dilynwyd ef gan Y Parch. David Rhydderch, Llandysul a soniodd am Mr. Jenkins fel pregethwr a ymroes yn llwyr at y gwaith a phregethwr a oedd yn barod i wrando ar eraill yn pregethu gan nad beth oedd eu syniadau a'u credo. A hyd yn oed ar lwyfan boliticaidd, pregethu a wnai. Cofiodd Y Parch. Islan Jones amdano fel myfyriwr yn ysgol David Evans Cribyn, ac yntau yn fachgen ffraeth a llawen. O'i ddyddiau cynnar yr oedd ganddo ddawn i ddewis geiriau a bod yn llithrig heb fod yn llac. Daeth yn ŵr pendant ei syniadau, yn gefnogwr llenyddiaeth Gymraeg, yn ddarlithydd medrus ac yn fwy na dim yn weinidog bro. . . . Hyfrydwch oedd gwrando ar deyrnged bachgen ifanc o'r eglwys ac yntau erbyn hyn â'i wyneb ar y weinidogaeth. Siaradodd Caradog Evans yn hyfryd dros ben am ei hen weinidog fel gŵr a gymerth ddiddordeb mewn pobl ifainc. Galwodd ar ei genhedlaeth i ymdrechu cadw'r glendid a fu ynddo ef yn fyw yn y fro. Evan Davies, cynysgrifennydd y gynulleidfa a diacon am 45 mlynedd oedd y siaradwr nesaf ac mewn araith a ddug i gof rai o bethau melys y daith hir gyda'i gilydd dangosodd Mr. Davies pa faint oedd dyled yr eglwys i'r hen weinidog yn faterol ac ysbrydol. Onid ef a fu'n gyfrifol am gasglu at gapel newydd, neuadd newydd a throi'r Hen Dŷ Cwrdd yn dai annedd hardd? Ond mwy na hynny, adeiladodd gymeriadau glân ac fe arweiniodd ddegau at bethau gwell. Yr unig wraig i siarad oedd Miss Thomas, Green Grove, a hithau hefyd yn mawrhau'r fraint o anabod gŵr unplyg ei feddwl. Profasent o'i haelioni fel teulu, meddai, a gadawodd ôl ei droed yn drwm ar lwybrau'r ardal. . . . Cafwyd araith nodedig gan Mr. W. S. Jones, yntau, a gobeithiwn fedru argraffu ei waith ef yn gyflawn yn ein rhifyn nesaf. . . . . Pwysleisio gwerth *cofio* a wnaeth y Parch. D. Jacob Davies gan nodi fod dyn a gollodd ei gof yn ddyn na ŵyr o ba le y mae'n dod nac i ba le y mae'n mynd. Y mae dyn felly yn ddiwerth i gymdeithas. Yn y cof mae ffynnon cysur pan ddaw storm ac yn y cof y mae gwreiddiau'r dyfodol. Cofiodd am Mr. Jenkins fel gŵr o ddylanwad cryf a da a gŵr o alluoedd arbennig, a allai fod yn enwocach pes mynnai. Ac i orffen rhoes y Parch. T. O. Williams ffrâm am y llun a dynnodd eraill o'r hen weinidog. Y ffrâm oedd dylanwadau cynnar cylch ei hen gartref yn Llanbedr a dylanwadau gwŷr mawr y fro honno arno, gwŷr megis Y Parch. Rees Cribyn Jones. A phan ddaeth i'r Llwyn a'r Bwlch ni allai ond dilyn arwyr fel Dafis Castell Hywel a Gwilym Marles. Boed i'r coffa i aros nid yn unig ar garreg ond hefyd ar gymeriadau'r ardal a garodd Mr. Jenkins mor fawr.

Offrymwyd gweddi dyner gan y Parch. S. E. Bowen yn ystod y gwasanaeth a hyfryd oedd gweld y capel eang yn llawn. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Parchn. J. M. Lloyd Thomas, James Davies a W. M. Jenkins, Rheithor y Plwyf, yn gofyn am faddeuant am eu absenoldeb anorfod.

"PARLYS Y PLANT"

Dyma lun tyrfa fechan o anffodusion sy'n dioddef oddi wrth barlys y plant, (*infantile paralysis*) a hwythau wedi teithio o dde Cymru ar wibdaith ddiwrnod i fferm Blaenafon gerllaw Ffostrasol. Trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Williams cafodd y plant ac eraill hwyl fawr mewn lle wrth eu bodd. Rhown y llun hwn yn ein cylchgrawn fel teyrnged fechan i waith diflino un o'n plith sydd yn treulio'i horiau hamdden i gyd gydag ymroddiad fel eiddo Schweitzer yn y maes arbennig hwn. Heb dâl ond diolch y mae Doris Price, aelod o Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr yn teithio trwy Forgannwg a thuhwnt i hynny gan weini cysur a rhoi cymorth i'r rhai sy'n dioddef oddi wrth y parlys creulon hwn. Nid yw yn y llun, hi a'i tynnodd ; hi hefyd a drefnodd y daith i Flaenafon. A'r adeg hon o'r flwyddyn fe'i gwelwch yn teithio o dŷ i dŷ ac o gwm i gwm er gwerthu Cardiau Nadolig a fydd yn dwyn elw i Gymdeithas y Ffaeledigion yma. Casglodd fwy y llynedd na neb arall drwy'r deyrnas ac eleni y mae wedi dyblu'r Casgliad eisoes. Os carech roddi rhywbeth i'w helpu, ei chyfeiriad yw Penlan, Brynhyfryd, Aberdâr. Edrychwch ar y llun yn ofalus a chyfrifwch faint yw gwerth eich diolch am iechyd eich plant. (Iawn dweud fod Mrs. Tom Evans a Mrs. Emrys Evans wedi cynorthwyo'n helaeth gyda threfniadau'r trip y gwelir ei lun uchod.)

MYFYRIWR NEWYDD DISGLAIR.—Cyn hir fe fyddwn yn gallu cyhoeddi enw bachgen ifanc o Sir Forgannwg sydd wedi ymuno â'n mudiad ac yn barod i weinidogaethu yn ein plith. Y mae ganddo raddau disglair o ddwy Brifysgol a bydd yn barod, ni a obeithiwn, i dderbyn galwad oddi wrth un o'n eglwysi Cymraeg cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

CWRDD CYMRAEG CAERDYDD.—Gwasanaethir ar y Sul cyntaf ym mis Rhagfyr gan y Parch. T. O. Williams, Llanbedr am hanner awr wedi tri fel arfer. Yn y flwyddyn newydd newidir y drefn ac fe geir y gwasanaeth ar yr ail Sul o'r mis. Da clywed bod nifer dda wedi dod ynghyd i wrando'r Prifathro ar y Sul cyntaf yn Nhachwedd. Cefais gynnig Beibl Cymraeg at eu gwasanaeth o Loegr ; rhoed Caerdydd wybod os carent ei gael.

GOHIRIO YSGRIFAU, ETC.—Ni allwyd cynnwys popeth a ddaeth i law yn y rhifyn hwn ond gobeithiwn am fwy o le yn rhifyn cyntaf y flwyddyn newydd.

PANT-TEG.—Cynhelir gwasanaethau achlysurol ym Mhant-teg o flwyddyn i flwyddyn ac y mae croeso gwresog iddynt gan yr ardalwyr. Eleni bu raid ail-adeiladu un o'r muriau a gwneud gwelliannau eraill er cadw'r lle wrth ei gilydd. Erbyn hyn y mae'r gwaith ar ei orffen, ac y mae'r draul tua £300. Y mae £100 mewn llaw yn barod ac apelir yn daer at garedigion yr Achos am eu cynorthwy i gwrdd â'r gweddill. Y mae cymeradwyaeth barod y Gymdeithas i'r Apêl, a gobeithir y bydd atebion buan i gwrdd â'r gofyn. Bydd cyfarfodydd agoriadol tan nawdd y Gymdeithas yn y Gwanwyn. Un o'r goleuadau bychain ydyw Pant-teg y sydd wedi dal i lewyrchu am lawer cenhedlaeth. Parhaed eto.

J. MARLES THOMAS (*Trefnydd ar ran y Gymdeithas*).
S. EVANS BOWEN, Alltyplaca, Llanybyther, *Trysorydd.*

CYRDDAU DIOLCH.—Gwasanaethwyd yng Nghwrdd Diolchgarwch Caeronnen gan y Parch. A. J. Martin, B.A., Llwynrhydowen ac ym Mrondeifi gan y Parch. Emlyn Williams, gweinidog y Methodistiaid yn Llanbedr. Cafwyd gwasanaethau hyfryd a chynulleidfaoedd boddhaol yn y ddau.

ABERYSTWYTH.—Ar y 10fed o Hydref, am y tro cyntaf erioed, bu Llywydd y Gymdeithas Gyffredinol—Mr. S. R. Butler, yn gwasanaethu yng Nghapel Bach, New Street, Aberystwyth. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i glywed ei neges bwrpasol, a chyfeiriodd Llywydd y Capel, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. at yr anrhydedd mawr hwn wrth ddiolch iddo. . . . Cawsom ein Cwrdd Diolchgarwch ar Dachwedd y 7fed, a'r Parch. Aubrey Martin yn pregethu. Addurnwyd y Capel yn hardd â blodau, ffrwythau, llysiau a thorth y cynhaeaf, gan y chwiorydd. Daeth nifer da ynghyd i ymuno yn y gwasanaeth.

PANTYDEFAID A'R GRAIG.—Mudiad ar ei dwf, gobeithio, yw Mudiad ein Pobl Ieuainc. Ar Sadwrn, Medi 18 talwyd ymweliad â Phobl Ieuainc ein Capel yn Abertawe. Ar Sadwrn Hydref 2 cawsom y fraint o'u croesawu yn ôl yn y Graig. Cychwynnwyd gyda gwaith y tymor nos Sul, Hydref 31ain. Etholwyd Miss Margaret Evans, Glaslwyn yn Lywydd am y flwyddyn. Mr. D. G. E. Davies, M.R.C.V.S., Faerdre yn fath o 'Ar-Lywydd' ; a Miss Sali Davies, Gwyon Castle yn Is-lywydd ; Miss Dilys Davies, 1, Wind Street

yn Ysgrifennydd a Mr. Alun Davies, Laura House yn Drysorydd. Ar Sadwrn, Tachwedd 13 aeth nifer i gynhadledd y Bobl Ieuainc yn Nhrebanos. (Llongyfarchion i Mr. Watcyn Davies ar gael ei ethol yn Lywydd y Gymdeithas yng Nghymru). . . . Nos Sul, Tachwedd 7, cynhaliwyd Cyngerdd Cysegredig yn Neuadd Pantydefaid a Mr. Tom Davies, Gwarcefel yn y gadair. . . . Nos Wener, Tachwedd 26ain cafwyd Darlith gan Mr. Thomas, M.R.C.V.S., Aberteifi ar y testun : "Hen Gymeriadau", a'r 'Ar-Lywydd' yn cadeirio.. Cychwynwyd tymor Urdd Benywod Pantydefaid Hydref 8fed. Ar Hydref 15fed anerchwyd y chwiorydd gan y Parch. Aubrey Martin. Bob wythnos wedi hynny cafwyd cyfarfodydd hyfforddi gwau scarffia, etc. gan Mr. Jenkins, Ysgolfeistr Pontshan. Nos Sul, Tachwedd 7fed cynhaliwyd Gwasanaeth Ymgysegru gydag anerchiad gan Mrs. Marles Thomas.

Dechreuwyd gwaith y tymor yn y Graig ar nos Wener, Hydref 23ain. Yr wythnos ddilynol cafwyd *demonstration* gan Mrs. Evans, Hafan-dawel. Ar Tachwedd 15 cafwyd darlith gan y Parch. Aubrey Martin.

Cynhaliwyd y Cyrddau Diolchgarwch yn y Graig ar Hydref 25 ac ym Mhantydefaid ar y 27ain o Hydref, a'r Parch. W. R. Nicholas, B.A., B.D. Bwlchygroes a Horeb yn pregethu.

Ar brynhawn Gwener, Hydref 29 fe aeth llond Bus o'r pedair eglwys (Y Bwlch, Llwyn, Pantydefaid a'r Graig) i gyfarfod ordeinio Gweinidogion Newydd i'r Weinidogaeth yn Abertawe. Cafwyd croeso brwd.

Ym Mhantydefaid edrychir ymlaen at ein Eisteddfod flynyddol a gynhelir ar Sadwrn, Rhagfyr 4 ; a Chyngerdd dan nawdd Urdd y Benywod ar Sadwrn, Rhagfyr 11.

CYFRANIADAU AT YR YMOFYNNYDD.—Derbyniwyd gini oddi wrth Mr. T. P. Griffiths, un o blant y Bwlch, sy'n byw yn y Barri erbyn hyn. Cofion cynnes atoch a diolch yn dalpau !

Y Cwpwrth Llyfrau

DAU LYFR DELFRYDOL AT Y NADOLIG.

STORÏAU'R HENLLYS FAWR gan W. J. Griffith ; Gwasg Aberystwyth ; 168 td., clawr caled ; pris 6s.

Nid llyfr newydd yw hwn ond argraffiad newydd o lyfr a gyhoeddwyd gyntaf yn 1938. Cyfirifir *Storïau'r Henllys Fawr* yn glasur ym mysg cyfrolau o storïau difyr y ganrif hon, a da o beth yw rhoi cyfle i'r do newydd ei ddarllen a'i feddu. Sylwaf i'r cyhoeddwyr nodi hwn fel "Ail-Argraffiad-Hydref 1954" ; nid cywir hynny. Dyma'r pedwerydd argraffiad mewn gwirionedd oherwydd cafwyd argraffiadau ohono yn 1938, 1940 ac yn 1943 ac ni welaf reswm dros beidio dangos ffeithiau sy'n profi poblogrwydd y storïau. Gwell-

iant mawr yn yr argraffiad presennol yw'r teip brasach, hawdd ei ddarllen, a ddefnyddir. Os oes amryw bobl fel myfi yn hoffi darllen yn y gwely lle nad yw'r golau fel rheol gystal ac ar y llawr, fe fydd cryn fendithio ar Wasg Gomer am y datblygiad hwn. Ni raid dweud dim am y cynnwys ond bod y storïau yn ddigri tuhwnt, a chyda llaw, nid rhyw bytiau byrion ydynt fel y rhan fwyaf o storïau byr Cymraeg ond storïau go hir sy'n rhoi cyfle i deimlo'r blas a'i gadw. Meddai T. Rowland Hughes yn y rhagair sylweddol ar W. J. Griffith, "Ni wn am neb Cymro, ar wahân i Ddaniel Owen, â chymaint o ddigrifwch yn ei natur ag oedd yn awdur y storïau hyn." Dyna gymeradwyaeth gŵr nad oes angen ychwanegu at ei farn a phiti garw na allwn bellach ddisgwyl dim rhagor o law y naill fel y llall.

STORÏAU A THORTREADAU gan Islwyn Williams ; Gwasg Aberystwyth; 147 td., clawr caled, mewn siaced liwgar, lân ; pris 6s.

Y MAE enw'r awdur hwn yn ddigon o warant i bob Cymro bellach y gall ddisgwyl ystorïau crefftus yn llawn o ysmaldod pryfoclyd o'i law. Profodd ei gamp yn *Cap Wil Tomos* ac erbyn hyn y mae'n dangos ei fod yn feistr di-lol ar ei waith. Y mae un stori ar ddeg yn y gyfrol ynghyd â dau bortread radio, cyfrwng arall y mae'r awdur wedi ei feistroli'n llwyr. Ni ddywedaf ddim newydd pan gyhoeddaf fod Islwyn yn un o'r nifer prin hynny o awduron Cymreig sy'n cymryd trafferth fanwl gyda phob gair a gyhoedda ac nid heb ystyried y dywedaf ei fod yn hynod debyg i'r Athro T. H. Parry-Williams yn hyn o beth. Cefais y fraint o gyd-weithio yn helaeth ag ef yn y byd radio ac ni ddarllenais sgript o'i eiddo erioed heb ddysgu rhywbeth am grefft ysgrifennu a chymhendod mynegiant. Gall, yn union fel rhai o feistri cerdd, wneud magnum opus ar thema syml a medd ar y gallu hwnnw i weld pethau bach o bob cyfeiriad a dihysbyddu sefyllfa'n llwyr heb ail-adrodd. Ac yn bennaf dim hoffaf ei ddull personol o ysgrifennu sy'n eich twyllo i gredu nad darllen tudalen oer o brint a wnewch eithr gwrando ar lais a gweld ystum y storiwr ; y mae'r stori'n beth byw. Cymeradwyaf y llyfr hwn yn eiddgar i'r neb a fyn gael oriau o fwyniant ynghwmni cymeriadau digri Cwm Tawe a hefyd fe'i cymeradwyaf i'r neb sy am ddysgu rhywbeth am grefft ysgrifennu sgript radio. Dyma rai o'r teitlau sy'n dangos y maes, "Lletwithdod", "Wil Tenor", "Moc Hawddamor", "Yr Arbenigwyr" ac wrth gwrs fe saif "Cythraul y Canu", y sgript radio, ar ei phen ei hun.

Nid oes ofod y tro hwn, ysywaeth, i wneud dim mwy na nodi bod *Crynhoad* Hydref yn wir dda ; hoffais yr erthygl ar "Cwiltio yng Nghymru" yn arbennig. Mae'r *Genhinen* yn dal yn raenus ; yn sylweddol heb fod yn sych. Na cheisied fyth fod yn *Llenor* nac yn *Fflam*, boed fel y mae, yn *Genhinen !* Daeth rhifyn Hydref o *Faith and Freedom* i'm llaw hefyd. Weithiau teimlaf fel ail-adrodd geiriau'r hen wraig honno am bregethwr *duwfn* am hwn : "Mae e bown o fod yn dda, ddealles i ddim gair ohono fe ! "

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.